Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Hillsboro**

**Tywyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

29 Medi 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Hillsboro

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Megan Bartlett |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Mehefin 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn yn Hillsboro. Gwnaethon nhw ddweud wrthym bod y gweithwyr gofal yn gyfeillgar, yn garedig ac yn gynorthwyol. Mae'r gweithwyr gofal yn cynorthwyo'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau a diddordebau. Dylid gwella cynlluniau personol i gynnwys manylion penodol er mwyn i'r staff gynorthwyo'r bobl â'u hanghenion gofal. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer diogelu'r bobl a'r staff. Dylid gwella systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y darparwr. Mae tîm sefydledig o staff yn cynorthwyo'r bobl ac maent yn cael hyfforddiant mewn meysydd gorfodol a phenodol. Mae trefniadau goruchwylio ac arfarnu staff ffurfiol yn cael eu hailddatblygu. Mae angen gwella amlder goruchwyliaeth ffurfiol.

Mae'r safle wedi'i leoli ar ei dir ei hun ac yn agos at gyfleusterau lleol. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus. Mae pob ardal o'r cartref wedi'i haddurno i safon dda. Mae pob gweithdrefn rheoli heintiau wedi sicrhau bod y bobl wedi'u diogelu rhag risg o haint.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff yn eu trin â pharch ac mae eu barn yn bwysig. Gwelsom y staff yn ymateb yn brydlon i anghenion a hoffterau unigolion. Mae'n amlwg bod y staff yn adnabod y bobl yn dda ac maent yn cyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith. Mae'r bobl wedi ymlacio ac yn gyfforddus ym mhresenoldeb y staff, sy'n cyfathrebu mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus. Mae dewis y bobl i aros yn eu hystafelloedd neu ymuno ag eraill yn y lolfa yn cael ei barchu gan y staff. Dywedodd un person, *"Caru'r bwyd yma, mae'r staff i gyd yn neis ac yn hawdd mynd atynt."* Dywedodd person arall wrthym *"Boddhaol iawn yma; y bwyd ddim yn gourmet ond yn dda."* Mae'r staff yn annog y bobl i fynegi eu hunain a gwneud dewisiadau megis arferion dyddiol. Gwelsom ddetholiad o gardiau diolch gan berthnasau y mae aelodau o'u teulu wedi aros yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn profi gweithgareddau newydd. Mae detholiad o lyfrau a gemau ar gael o gwmpas y cartref a dywedodd un person ei fod yn mwynhau darllen y papur newyddion dyddiol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cwmni cyd-breswylwyr yn y gwasanaeth a gwnaethon nhw rannu sut y maent yn dysgu gemau bwrdd a chardiau i'w gilydd. Dywedodd un person am bwysigrwydd mynd allan i'r gymuned a sut mae'r staff yn parchu hyn.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac mae'r staff yn eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r staff a'r darparwr wedi dilyn canllawiau'r Llywodraeth drwy'r pandemig diweddar. Gwelsom fod y staff yn cadw gwybodaeth yn ddiogel er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Mae amgylchedd y cartref yn cefnogi'r bobl i gyflawni safon dda o lesiant. Mae eiddo personol y bobl yn rhoi gwedd bersonol ar yr ystafelloedd gwely ac mae mannau cymunol i'r bobl eistedd a sgwrsio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau.

## Gofal a Chymorth

Mae’r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol eu hunain. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg newydd wedi’u rhoi ar waith i adlewyrchu sut yr hoffai’r bobl gael eu cynorthwyo. Mae’r cynlluniau personol yn cynnwys pob maes gofal personol gofynnol. Dylid cynnwys mwy o fanylion pan asesir bod angen cymorth gyda gofal personol ar y person. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i’r darparwr weithredu.

Darperir gweithgareddau a chyfleoedd priodol a rheolaidd i’r bobl ddilyn diddordebau neu hobïau. Mae’r staff yn rhyngweithio â’r bobl mewn ffordd ystyrlon ac maent yn ymwybodol o hoffterau unigolion mewn perthynas ag adloniant. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnodau, naill ai mewn un o’r mannau cymunol o gwmpas y cartref neu yng nghysur eu hystafelloedd eu hunain. Mae’r staff yn cynorthwyo’r bobl i fynd allan i’r gymuned.

Mae iechyd a llesiant y bobl yn cael eu hybu. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae’r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud yr atgyfeiriad perthnasol i’r awdurdod lleol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â’r bobl y maent yn eu cynorthwyo. Mae gan y bobl fynediad at amryw o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pryd bynnag y bo angen. Mae cofnodion yn ymwneud ag unrhyw gamau gweithredu yn cael eu cofnodi yn y dogfennau perthnasol.

Dylid gwella systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff meddyginiaeth ei storio’n ddiogel ar y safle ac mae’r staff sy’n rhoi meddyginiaeth wedi cael hyfforddiant. Lle bo cymorth ar gyfer hunan-feddyginiaethu, nid oes archwiliad i’r staff gael sicrwydd bod y person yn cymryd ei feddyginiaeth ragnodedig. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i’r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo llesiant y bobl. Mae pob ardal o'r cartref wedi ei haddurno a'i dodrefnu i safon dda. Mae gwedd bersonol ar ystafelloedd y bobl, ac mae offer personol yn cynnwys ffonau symudol a phethau cofiadwy. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ar eu hystafelloedd gwely. Mae cymhorthion ac addasiadau digonol i hyrwyddo annibyniaeth. Mae lifft grisiau ar gael ar gyfer y bobl sy'n byw ar y llawr cyntaf. Gweithredir yn brydlon ar unrhyw atgyweiriadau sydd angen eu gwneud.

Mae man helaeth yn yr awyr agored fel y gall y bobl eistedd y tu allan yn ystod tywydd braf. Mae'r tir yng nghefn y safle yn cael ei ailddatblygu i greu ardaloedd hamdden ychwanegol.

Gall y bobl fod yn hyderus bod trefniadau rheoli heintiau ar waith ar y cyfan. Mae'r cartref yn lân heb unrhyw arogleuon ac mae protocolau rheoli heintiau, sy'n cael eu dilyn. Mae digon o gyfarpar diogelu personol yn parhau ar gael o gwmpas y cartref i'r bobl, yr ymwelwyr a'r staff gael mynediad ato.

Mae'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl wedi eu lleihau. Cofnodir bod tymheredd oergelloedd a rhewgelloedd yn cael eu gwirio yn ddyddiol. Cofnodir bod y gwiriadau diogelwch tân wythnosol yn cael eu cynnal bob wythnos. Mae gan y cartref sgôr pum seren ar gyfer safonau hylendid bwyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae Hillsboro yn fusnes teuluol. Y darparwr cofrestredig yw'r unigolyn cyfrifol a rheolwr y gwasanaeth hefyd. Mae'r darparwr yn gweithio ochr yn ochr â'r staff bob dydd. Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben sy'n disgrifio'n glir ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth a sut y bydd yn cael ei gyflenwi. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sydd yn disgrifio'r gwasanaeth ac yn rhoi gwybod iddynt sut i wneud cwyn.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer cwynion, diogelu a meddyginiaeth, er enghraifft. Dywedodd y darparwr wrthym y byddai'r polisïau'n cael eu hadolygu mewn ymgynghoriad â'u cynghorwyr proffesiynol. Dywedodd y darparwr wrthym am ddigwyddiadau yn y gwasanaeth sy'n hysbysadwy i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ond nid yw'r rhain wedi cael eu hadrodd yn ffurfiol. Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr fod â threfniadau priodol ar waith i hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth (AGC) am ddigwyddiadau arwyddocaol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sydd â nifer digonol o staff sydd yn ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r staff wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC). Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr, a'u bod yn rhan o raglen datblygu staff sy'n cynnwys hyfforddiant. Gwelwyd tystiolaeth o'r amserlenni hyfforddi sydd ar y gweill i'r staff. Ni ddarparwyd goruchwyliaeth ffurfiol. Mae'r rheolwyr yn y broses o ailddatblygu sesiynau goruchwylio ac arfarniadau ffurfiol i gynnwys llesiant, perfformiad a datblygiad y staff. Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i sesiynau goruchwylio staff un i un ffurfiol gael eu cynnal o leiaf bob chwarter. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 60 | Nid yw'r darparwr wedi cyflwyno hysbysiadau i'r rheoleiddiwr (AGC) yn dilyn marwolaeth pobl yn y gwasanaeth. | Newydd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn nodi manylion y camau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion llesiant, gofal a chymorth y bobl o ddydd i ddydd. | Newydd |
| 36 | Ni ddarperir goruchwyliaeth un i un i'r staff bob chwarter. | Newydd |
| 58 | Nid oes systemau ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n hunan-feddyginiaethu yn cael eu goruchwylio a'u harolygu. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 22/11/2022